**Ymateb y Llywodraeth:** ***Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020***

Craffu Technegol

1. **Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

   1.1. Mae cynghorwyr cyfreithiol y Senedd wedi tynnu sylw at wallau croesgyfeirio yn rheoliadau 9 a 17(10). Bydd Llywodraeth Cymru yn diwygio'r Rheoliadau er mwyn cywiro'r croesgyfeiriadau pan fydd y cyfle cyntaf yn codi.

Craffu ar Rinweddau

2. **Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

   2.1. Mae cynghorwyr cyfreithiol y Senedd wedi cwestiynu'r diffiniad o "trwyddedai carthffosiaeth" ym mharagraff 17(2)(b) o Atodlen 2 i'r Rheoliadau. Mae'r diffiniad yn cyfeirio at adrannau 17BA(6) a 219(1) o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991. Fodd bynnag, nid yw adran 4(1) o Ddeddf Dŵr 2014, sy'n mewnosod adran 17BA yn Neddf 1991, ond mewn grym yn rhannol. Gan hynny, nid yw adran 17BA(6) wedi ei mewnosod yn Neddf 1991 eto. Fodd bynnag, mae'r diffiniad o "sewerage licensee" a fewnosodir yn adran 219(1) o Ddeddf 1991 (sydd hefyd yn cael ei fewnosod gan Ddeddf 2014) mewn grym ac yn diffinio'r term o dan sylw drwy gyfeirio at adran 17BA(6).

   2.2. Mae'n ymddangos mai gwall sy'n gyfrifol am y ffaith nad yw adran 17BA(6) wedi ei chychwyn, a chafodd y Rheoliadau eu drafftio ar y ddealltwriaeth bod adran 17BA(6) mewn grym. Ond fel y mae cynghorwyr cyfreithiol y Senedd wedi ei awgrymu, rhaid i'r diffiniad o "trwyddedai carthffosiaeth" fod â'r ystyr a roddir i "sewerage licensee" yn y ddarpariaeth nad yw wedi ei chychwyn, fel y'i dehonglir drwy gyfeirio at adran 219(1) o Ddeddf 1991 a'r troednodyn a ddarperir yn y Rheoliadau. Ond mae'r sefyllfa hon yn golygu bod y gyfraith yn llai hygyrch nag y dylai fod.

   **2.3.** Nid yw'r Llywodraeth yn meddwl y byddai atgynhyrchu'r diffiniad llawn yn y Rheoliadau yn datrys y mater, gan fod angen i'r ymadrodd "trwyddedai carthffosiaeth" fod â'r ystyr a roddir i "sewerage licensee" yng nghyd-destun Deddf 1991. Yr Ysgrifennydd Gwladol sydd â'r pŵer i gychwyn adran 4 o Ddeddf 2014, nid Gweinidogion Cymru (adran 94 o Ddeddf 2014). Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn bwriadu cysylltu â'u swyddogion cyfatebol yn Llywodraeth y Deyrnas Unedig i dynnu eu sylw at fater cychwyn adran 17BA(6).

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

3.1. Mae cynghorwyr cyfreithiol y Senedd wedi nodi bod y Rheoliadau yn ymwneud â'r hawl i fywyd preifat a theuluol o dan Erthygl 8 o'r Confensiwn ac y byddai'r Pwyllgor yn hoffi gweld Llywodraeth Cymru yn nodi ei chyfiawnhad o ran sut y mae'r Rheoliadau hyn yn ymwneud â hawliau dynol ond nad ydynt yn eu torri.

3.2. Mae'r Llywodraeth yn derbyn nad oes llawer o amheuaeth y bydd y gofynion hunanynysu llym a osodir gan y Rheoliadau yn golygu ymyrraeth â'r hawl Erthygl 8. Hawl amodol yw hon, fodd bynnag, ac mae'r cyfiawnhad dros ymyrryd â'r hawl hon yn un cymharol eang ac yn cynnwys mesurau sy'n angenrheidiol er mwyn diogelu'r cyhoedd a diogelu iechyd. Mae'r rhain yn cynnig nod dilys ar gyfer darpariaethau'r Rheoliadau.

3.3. Mae'r Llywodraeth yn ystyried bod yr argyfwng Covid-19 presennol yn peri risg i iechyd y cyhoedd. Mae'r mesurau yn y Rheoliadau yn angenrheidiol ac yn gymesur er mwyn cyflawni'r nod dilys o ddiogelu iechyd y cyhoedd. Gan hynny, mae cyfiawnhad dros unrhyw ymyrraeth â'r hawl Erthygl 8.